Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar weithleoedd a'r Gymraeg

Gorffennaf 2026

1 **Crynodeb gweithredol:** Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru: Gweithleoedd a'r Gymraeg

1.1 **Pwrpas:** Mae'r nodyn cyngor statudol hwn yn amlinellu'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol at gael y Gymraeg yn iaith waith naturiol ym mhob rhan o'r gweithle - iaith sy'n cael ei defnyddio'n hyderus, yn gyson ac fel rhan naturiol o waith bod dydd. Bydd hyn yn arwain at weithluoedd mwy hyderus, gwasanaethau o ansawdd uwch, a chynnydd parhaol yn y defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

1.2 **Yr her strategol:** Yn aml, Saesneg yw iaith weithredu ddiofyn gweithleoedd. Gall diffyg trefniadau mewnol effeithiol, diffyg arweinyddiaeth glir neu ddiffygion o ran cynllunio a chefnogi'r gweithlu, arwain at sefyllfa lle nad yw gweithwyr yn defnyddio'r Gymraeg hyd yn oed pan fo ganddynt y sgiliau i wneud hynny. Trwy adeiladu ar yr ymwneud presennol â gweithleoedd, mae cyfle i ehangu a dyfnhau ein dylanwad ar y defnydd dyddiol o'r Gymraeg drwy ymyrraeth fwy systematig.

1.3 **Risg:** Heb ymyrraeth fwriadol, mae perygl y bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei hystyried yn bennaf fel gofyniad arwynebol, yn hytrach nag fel sgil broffesiynol sy'n cyfrannu at ansawdd gwasanaethau. Drwy osod gweledigaeth genedlaethol glir, gellir lliniaru'r risg honno a chreu gweithleoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n rheolaidd, ei pharchu fel cymhwysedd gwaith, a'i chydnabod fel elfen annatod o ddarparu gwasanaethau o ansawdd.

1.4 **Y datrysiad sy'n cael ei gynnig:** Rhaglen waith genedlaethol fwy dwys ac ar raddfa ehangach, wedi'i thargedu ac wedi'i hariannu'n briodol, sy'n cydlynu ymdrechion partneriaid allweddol – gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg – i sicrhau cynnydd ystyrlon a chynaliadwy yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru. Byddai'r rhaglen yn gweithredu fel ymyrraeth systemig er mwyn sicrhau effaith gyson ar draws sectorau ac ardaloedd. Gellid gwneud hyn drwy:

- wreiddio'r Gymraeg o fewn arweinyddiaeth a strwythurau sefydliadol er mwyn sicrhau ystyriaeth a chefnogaeth ddyledus ar bob lefel o weithredu;
- sefydlu dull cenedlaethol cyson o fesur a monitro defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd;
- datblygu'r dystiolaeth i lywio ymyriadau effeithiol ar draws sectorau;
- adnabod a chydlynu cyfleoedd a llwybrau mewn i waith, ac annog sefydliadau i gefnogi staff yn eu defnydd o'r Gymraeg;
- cynyddu capasiti ieithyddol gweithluoedd, er mwyn galluogi darparu gwasanaethau yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg.

Mae'r tri cham a amlinellir isod yn cynnig fframwaith clir i gyflawni'r nod hwn drwy gyfuno arweinyddiaeth genedlaethol, capasiti gweithredu, a fframwaith rheoleiddio cryfach.

1.5 Y camau sydd angen eu cymryd gan Weinidogion Cymru

Cam 1: Gosod gweledigaeth genedlaethol glir ar gyfer y gweithle

- Adeiladu ar y weledigaeth bresennol o ddatblygu Llywodraeth Cymru yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n naturiol a chyfnewidiol. Dylid mabwysiadu'r weledigaeth hon fel disgwyliad cenedlaethol ar gyfer pob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, gan ei gwreiddio o fewn gwerthoedd ac ymddygiadau Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, a thrwy hynny osod cyfeiriad strategol cydlynol ar draws y sector.
- Wrth ddiwygio Cymraeg 2050, dylid manteisio ar y cyfle i sefydlu'r gweithle fel blaenoriaeth drawslywodraethol allweddol ar gyfer y cyfnod 2026-30, gyda chamau bwriadol i gynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg mewn gweithleoedd, a sicrhau bod gwaith partneriaid perthnasol – gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg – yn cydgyfeirio tuag at y weledigaeth honno.

Cam 2: Galluogi'r capasiti a'r arweinyddiaeth i weithredu

- Darparu adnodd ychwanegol aml-flwyddyn i Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn arwain ar elfennau craidd o strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 yn y gweithle. Byddai hyn yn galluogi'r Comisiynydd i ddatblygu capasiti arbenigol i roi arweiniad pendant i ymyriadau ar draws sectorau; datblygu dull cenedlaethol o fesur a monitro defnydd o'r Gymraeg; cefnogi sefydliadau i ddatblygu polisïau defnydd mewnol cadarn; a chryfhau cynllunio'r gweithlu a dealltwriaeth sefydliadol o anghenion sgiliau Cymraeg yng nghyd-destun safonau'r Gymraeg.

  Byddai'r weithgaredd hon, ynghyd â gweithgareddau partneriaid eraill yn galluogi cynnydd a newid ystyrlon yn y maes hwn.

Cam 3: Defnyddio'r adolygiad statudol i gryfhau'r fframwaith rheoleiddio

- Defnyddio'r adolygiad statudol o safonau'r Gymraeg (dan adran 4 Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025) i gryfhau'r dyletswyddau sy'n ymwneud â defnydd mewnol, cynllunio'r gweithlu, a chasglu a defnyddio data, gan sicrhau bod y safonau'n ategu'r weledigaeth genedlaethol ac yn gyrru newid ymarferol, mesuradwy a chymesur.
- Mae potensial clir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd fel rhan naturiol o fywyd gwaith. Trwy weithredu'n fwriadol ac ar y cyd, gallwn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei gwerthfawrogi fel sgil broffesiynol a'i defnyddio'n hyderus bob dydd.

2 **Y cyngor llawn:** Fframwaith gweithredu arfaethedig gweithleoedd a'r Gymraeg

2.1 Mae adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd arnaf i gynnig cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd, neu sy'n ymwneud â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

2.2 O dan y ddarpariaeth hon, rwy'n cyflwyno'r nodyn cyngor statudol hwn i amlinellu'r camau rwy'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i wireddu'r weledigaeth a amlinellir yn Cymraeg 2050, ac i adrodd yn gadarn ar y targedau statudol a osodir yn Neddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

3 Pam nawr?

3.1 Y gweithle yw un o'r meysydd sy'n dylanwadu fwyaf ar y defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Dyma lle mae pobl yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser, yn ffurfio normau proffesiynol, ac yn adeiladu neu'n colli hyder i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hefyd yn bont bwysig rhwng addysg a bywyd cymunedol, gan gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg wrth i bobl ifanc symud i fyd gwaith.

3.2 Yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru[1], mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ddatblygu adnoddau a darparu cyngor i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd, ac i gynorthwyo sefydliadau i gynllunio'u gweithluoedd.

3.3 Dros y cyfnod diweddar, mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'r sylfaen ar gyfer y maes gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys gwaith dadansoddol, datblygu modelau polisi i roi cyfeiriad clir i sefydliadau, a llunio theori newid gysylltiedig i lywio ymyriadau yn y gweithle.

3.4 Mae'r gwaith hwn eisoes wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol, gan gynnwys y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ymhlith eraill.

3.5 Er mwyn creu'r shifft sylfaenol mewn normau, ymddygiad ac arferion gweithio yr ydym i gyd yn awyddus i'w gweld, bydd angen dull llawer mwy dwys, cydlynol a chenedlaethol ei raddfa – un sy'n cyfuno arweinyddiaeth glir, buddsoddiad sylweddol a phwrpasol mewn adnoddau, a mecanweithiau systemig i gefnogi a gyrru newid ar draws gweithleoedd. Heb hyn, mae perygl y bydd cynnydd yn parhau'n raddol ac yn

[1] https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/5jflmtnl/memorandwm-terfynol-rhwng-llywodraeth-cymru-a-chomisiynydd-y-gymraeg-hydref-2024-cymraeg.pdf

rhannol, yn hytrach na chyflawni'r newid ystyrlon a chynaliadwy sydd ei angen i wireddu amcanion Cymraeg 2050.

> "Mae cymaint o botensial i'r gwaith gweithleoedd ond dwi wir yn meddwl bod angen buddsoddiad ac adnodd a gwaith dwys i'n symud ni fel sefydliadau i'r cam nesaf mwy strategol, sy'n canolbwyntio ar gynllunio gweithlu."
>
> *Sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg*

3.6 Fel y nododd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ("y Comisiwn"), mae angen creu "gofodau" lle gellir defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd ac yn naturiol[2]. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gweithle yn safle cymdeithasoli ieithyddol allweddol – lle gall defnyddio'r Gymraeg fod yn ymarferol, yn gefnogol ac yn arferol.

3.7 Yn aml, Saesneg yw iaith weithredu ddiofyn gweithleoedd. Gall diffyg trefniadau mewnol effeithiol, diffyg arweinyddiaeth glir neu ddiffygion o ran cynllunio a chefnogi'r gweithlu, arwain at sefyllfa lle nad yw gweithwyr yn defnyddio'r Gymraeg hyd yn oed pan fo ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

3.8 Yn y cyd-destun hwn, ac fel y pwysleisir hefyd gan y Comisiwn, nid yw dibynnu ar unigolion i newid eu hymddygiad ar eu pen eu hunain yn debygol o sicrhau newid cynaliadwy. Heb ymyrraeth fwriadol, mae perygl y bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei hystyried yn bennaf fel gofyniad polisi, yn hytrach nag fel sgil broffesiynol sy'n cyfrannu at ansawdd gwasanaethau.

3.9 Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn tanlinellu'r angen am ymagwedd fwy systematig i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, sy'n symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth ffurfiol tuag at newid diwylliant, arweinyddiaeth a threfniadau sefydliadol. Mae hyn yn cyd-fynd â dull y Comisiynydd o weithio gyda sefydliadau o dan safonau'r Gymraeg, sy'n rhoi pwyslais cynyddol ar gyd-reoleiddio a deilliannau clir i ddefnyddwyr y Gymraeg yn hytrach nag ar gydymffurfiaeth gaeth.

3.10 Gan adeiladu ar y datblygiadau presennol, credwn fod cyfle i gryfhau'r aliniad strategol rhwng partneriaid, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn llywio blaenoriaethau ar y cyd a chynyddu effaith gyfunol y gwaith ar draws Cymru.

3.11 Gyda Llywodraeth newydd mewn grym, a bwriad i ddiwygio strategaeth Cymraeg 2050 dros y cyfnod nesaf, mae cyfle amserol i atgyfnerthu'r cyfeiriad strategol presennol drwy roi ffocws cryfach ar y gweithle fel un o'r prif sbardunau i gynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

3.12 Credwn fod hyn yn cyflwyno cyfle polisi clir i Lywodraeth Cymru i:

---

[2] Cyrraedd pob cymuned, cryfhau'r Gymraeg, t.88

- sicrhau bod buddsoddiad mewn addysg Gymraeg yn trosi'n ddefnydd parhaus yn y gweithle
- datblygu gweithleoedd sy'n hybu a chefnogi defnydd o'r Gymraeg
- cryfhau capasiti gweithluoedd dwyieithog mewn sectorau allweddol, a
- datblygu sail dystiolaeth gadarn i fesur cynnydd mewn defnydd dros amser.

4 **Cam 1:** Gwreiddio'r gweithle fel blaenoriaeth genedlaethol o fewn Cymraeg 2050 diwygiedig (2026-30)

4.1 Mae dyhead a gweledigaeth Llywodraeth Cymru, i ddatblygu'n sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n naturiol a chyfnewidiol, yn gosod esiampl glir i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru[3]. Credwn fod cyfle i ymestyn yr uchelgais hwn fel disgwyliad cenedlaethol ar gyfer pob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, gyda Cymraeg 2050 yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer ei weithredu.

4.2 Yn y cyd-destun hwn, mae'r gweithle yn faes allweddol i wireddu'r uchelgais honno yn ymarferol. Dyma lle mae unigolion yn gwneud dewisiadau iaith o ddydd i ddydd, ac felly lle mae modd normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd proffesiynol. Drwy gryfhau'r ffocws ar y gweithle o fewn Cymraeg 2050, gellir helpu i sicrhau bod buddsoddiad mewn addysg Gymraeg yn trosi'n ddefnydd parhaus yn y gweithle, ac yn y pen draw yn y gymdeithas ehangach.

4.3 Wrth ddiweddaru Cymraeg 2050, mae cyfle i adlewyrchu hyn yn fwy pendant drwy wneud y gweithle yn flaenoriaeth drawslywodraethol allweddol ar gyfer y cyfnod 2026-30, a thrwy osod disgwyliadau clir ar sefydliadau cyhoeddus i wneud cynnydd bwriadus tuag at ddatblygu gweithleoedd gwirioneddol ddwyieithog.

4.4 Mae rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog eisoes wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu arweinyddiaeth sy'n deall rôl y Gymraeg mewn newid sefydliadol a darparu gwasanaethau. Wrth gryfhau'r ffocws cenedlaethol ar y gweithle, dylid adeiladu ar y sylfeini hyn er mwyn sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn meddu ar yr wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn eu sefydliadau. Gallai hyn helpu i sicrhau bod y buddsoddiad presennol mewn datblygu arweinyddiaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion Cymraeg 2050, gan gefnogi newid diwylliannol a normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gwaith.

4.5 Byddai gosod y ffocws hwn o fewn y strategaeth genedlaethol yn galluogi cydlynu ymdrechion mewn modd mwy systematig, gan gynnwys:

- datblygu arweinyddiaeth sefydliadol glir o ran y Gymraeg
- cryfhau capasiti gweithluoedd i ddefnyddio'r iaith
- sicrhau llwybrau clir o addysg i waith yn Gymraeg

[3] Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd [HTML] | LLYW.CYMRU

- alinio cynllunio'r gweithlu, datblygu sgiliau a dysgu Cymraeg ag anghenion cyflogwyr
- a chefnogi newid diwylliannol o fewn sefydliadau.

4.6 Yn ei hanfod, byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gwaith partneriaid – gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg – yn cydgyfeirio o dan yr un disgwyliadau a blaenoriaethau, gan gynyddu effaith gyfunol ymdrechion ar draws Cymru i greu gweithleoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n hyderus ac yn naturiol mewn gweithleoedd.

5 **Cam 2:** Comisiynydd y Gymraeg i arwain ar elfennau craidd o weithredu strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 yn y gweithle

5.1 Rhagwelwn fod potensial clir i raglen bwrpasol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ddal dychymyg a gyrru newid ymarferol. O fewn fframwaith strategol Cymraeg 2050, sy'n gosod y weledigaeth genedlaethol, gellid datblygu dull mwy cydlynol drwy adeiladu ar frandiau presennol neu ddatblygu brand cryf, gan gysylltu gweithgaredd partneriaid o dan y weledigaeth honno.

5.2 Byddai cryfhau'r ffocws hwn o fewn Cymraeg 2050 yn helpu i roi eglurder a chyfeiriad i weithgaredd partneriaid, ac yn cryfhau dealltwriaeth o rolau sefydliadau unigol. Byddai hyn yn:

- creu cydlyniant strategol ar draws mentrau a phartneriaid
- sicrhau negeseuon clir a chyson i gyflogwyr a gweithwyr
- hwyluso mesur, dysgu a chyfathrebu ar lefel genedlaethol.

5.3 I sicrhau hyn mewn modd effeithiol, dylai'r strategaeth ddiwygiedig nodi'n glir gyfrifoldebau a rolau sefydliadau allweddol ar gyfer y maes gwaith hwn, gan gynnwys rôl arweiniol y Comisiynydd lle bo hynny'n briodol.

5.4 Byddai hefyd yn galluogi ehangu'r gwaith i'r trydydd sector a'r sector preifat, gan dreialu ymyraethau effeithiol mewn ystod ehangach o gyd-destunau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.

5.5 Byddai gweithredu ar y raddfa a ddisgrifir yn y nodyn hwn yn gofyn am gyfraniad parhaus gan nifer o bartneriaid strategol. Dylid felly sicrhau bod unrhyw drefniadau gweithredu yn cydnabod gallu, cyfrifoldebau a blaenoriaethau'r partneriaid hynny, gan gynnwys y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliadau eraill sydd â rôl allweddol mewn datblygu sgiliau Cymraeg, llwybrau i waith a chynllunio'r gweithlu. Byddai eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, ynghyd â chydlynu effeithiol rhwng partneriaid, yn hanfodol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'r buddsoddiad cyhoeddus yn y maes hwn.

5.6 Isod ceir trosolwg lefel uchel o raglen waith genedlaethol arfaethedig y Comisiynydd ar gyfer y cyfnod 2026-30. Byddai'r rhaglen hon yn cefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 drwy roi ffocws gweithredol ar y gweithle, gyda thri phrif faes:

I. **Mesur defnydd ac effaith ymyraethau cynyddu defnydd**

II. **Recriwtio a chynllunio'r gweithlu**

III. **Meithrin diwylliant a newid ymddygiad**

5.7 Ynghyd â'r blaenoriaethu'r uchod, byddai rhaglen o weithgareddau i gefnogi sefydliadau i ddatblygu eu polisïau ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ymhellach ac i gasglu a rhannu arferion effeithiol a dod â phobl at ei gilydd i drafod y Gymraeg yn y gweithle.

> "Mae rôl glir gan y Comisiynydd yn hwyluso a chefnogi sefydliadau yn y cyfnod newydd yma o gyd-reoleiddio."
>
> *Sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg*

5.8 Byddai llwyddiant y rhaglen yn cael ei fesur drwy newid ymarferol, mesuradwy a chynaliadwy yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Nid cydymffurfiaeth ffurfiol yn unig yw'r nod, ond normaleiddio'r Gymraeg fel iaith waith naturiol proffesiynol, wedi'i gwreiddio mewn arferion gwaith a gweinyddiaeth fewnol.

5.9 Disgwylir i'r rhaglen arwain at welliannau pendant mewn arferion gwaith a chynllunio'r gweithlu, gan wella ansawdd gwasanaethau Cymraeg a chefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn cymunedau. Bydd y fframwaith mesur cysylltiedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall yn well effaith ymyraethau a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus dros amser.

I. Mesur defnydd ac effaith ymyraethau cynyddu defnydd

- datblygu dull cenedlaethol ar gyfer mesur defnydd staff o'r Gymraeg yn y gweithle, a'i fabwysiadu gan sefydliadau
- sefydlu gwaelodlin glir a mesuradwy o ddefnydd iaith fel sail i gynnydd
- gwerthuso effeithiolrwydd ymyraethau drwy dreialu a rhannu arferion da
- datblygu a rhannu adnoddau ymarferol i gynyddu defnydd
- annog defnydd arloesol o dechnoleg

II. Recriwtio a chynllunio'r gweithlu

- cynyddu ffocws ar ddatblygu arferion recriwtio i gefnogi gweithleoedd dwyieithog
- cysoni dulliau pennu gofynion iaith swyddi, gan baratoi sefydliadau at fabwysiadu'r Cod Cenedlaethol i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg
- ymwneud â swyddogion adnoddau dynol a datblygu sefydliadol er mwyn cynyddu dealltwriaeth a chryfhau presenoldeb y Gymraeg o fewn strwythurau a threfniadau recriwtio sefydliadol,

- gweithio gyda sefydliadau i gryfhau prosesau cynllunio'r gweithlu, er mwyn sicrhau ystyriaeth i greu gofodau ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â darparu gwasanaethau yn Gymraeg
- cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (a'r Athrofa yn ei dro) i adnabod a thargedu anghenion presennol dysgu Cymraeg gweithluoedd
- cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gryfhau'r llwybrau i waith yn Gymraeg, a deall beth sy'n ysbrydoli – a rhwystro – myfyrwyr o ran gweithio yn Gymraeg
- cydweithio gyda sefydliadau i nodi'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi, mewn modd sy'n cyd-fynd â'r ffocws cynyddol genedlaethol ar sgiliau a datblygu'r gweithlu, a hyrwyddo cyfleoedd megis prentisiaethau Cymraeg fel llwybrau strategol i weithio yn Gymraeg
- gweithio gyda sefydliadau a phartneriaid allweddol i ddeall a mynd i'r afael â rhwystrau i recriwtio, llwybrau at waith a chefnogaeth mewn gwaith.

III. Meithrin diwylliant a newid ymddygiad

- gweithio gyda sefydliadau i greu amgylcheddau gwaith sy'n cymdeithasoli'r Gymraeg er mwyn i bawb deimlo hyder i'w defnyddio
- cryfhau cyfathrebu mewnol am y Gymraeg
- ehangu rhaglen hyfforddi ac ymwybyddiaeth
- datblygu hyfforddiant ac adnoddau newid ymddygiad ac ymwybyddiaeth iaith ysbrydoledig, sy'n gyson ar lefel genedlaethol
- pwysleisio rôl arweinyddiaeth mewn magu diwylliant sy'n cefnogi'r Gymraeg
- cynnull fforwm Cymraeg yn y Gweithle fel platfform i rannu arferion da, a dysgu wrth ein gilydd.

5.10 Ar y cyd â rôl barhaus y Comisiynydd mewn cyd-reoleiddio a chefnogi cydymffurfiaeth, byddai'r rhaglen hon yn cyfrannu at gynnydd clir, mesuradwy yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ar draws Cymru.

5.11 At ei gilydd, bydd hyn yn arwain at y canlyniadau canlynol:

- **Gwaelodlin glir a chyson** o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd sector cyhoeddus, gyda'r potensial i'w hymestyn i'r trydydd sector a'r sector preifat.
- **Ffynhonnell gadarn** o wybodaeth i gefnogi targedau strategaeth Cymraeg 2050 o ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Cynlluniau bwriadus gan sefydliadau i gynyddu defnydd, gyda **pholisïau uchelgeisiol** yn cael eu datblygu gyda chefnogaeth ac arweiniad y Comisiynydd.
- Sefydliadau yn symud ar hyd y **continwwm defnydd iaith**, gyda mwy yn gweithredu'n Gymraeg neu'n gynyddol ddwyieithog.

- **Cynnydd yn nifer** y swyddi sy'n cael eu hysbysebu gyda gofynion clir am allu yn y Gymraeg.
- Sefydliadau yn **mabwysiadu'r Cod Cenedlaethol** i bennu a chofnodi sgiliau, gan sicrhau mwy o gysondeb ar draws y sector a dilyniant clir o addysg i'r gweithle.
- **Cynnydd yn nifer y staff** sy'n adrodd sgiliau iaith Gymraeg ar **lefel B2 neu uwch**.
- **Cynnydd mewn capasiti** sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd.
- Gwell dealltwriaeth o **gyfranogiad mewn hyfforddiant** sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys ymwybyddiaeth, arweinyddiaeth a chymdeithasoli.

6 **Cam 3:** Defnyddio adolygiad safonau'r Gymraeg i gryfhau'r fframwaith rheoleiddio presennol er mwyn ategu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer gweithleoedd gwirioneddol ddwyieithog

6.1 Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn creu cyfle pwysig i gryfhau'r gwaith hwn. Bydd mabwysiadu'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn galluogi dilyniant clir o addysg i'r gweithle ac i ddysgu gydol oes, gyda rôl i bartneriaid amrywiol i gefnogi unigolion a sefydliadau ar hyd y daith honno.

6.2 Mae adran 26(1) a 26(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i bennu un neu ragor o safonau ac i wneud darpariaeth ychwanegol ynghylch y safonau hynny. Mae adran 27(4) y Mesur yn nodi y gall safonau a bennir o dan adran 26(1) neu reoliadau o dan adran 26(2) ymdrin, ymhlith pethau eraill, ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- llunio strategaethau neu gynlluniau'n nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau
- gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan bersonau
- casglu gwybodaeth gan bersonau, gan gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas ag ymddygiad penodol
- gwybodaeth y mae'n rhaid trefnu iddi fod ar gael i'r Comisiynydd
- trefniadau monitro a gofynion cyhoeddusrwydd
- gofynion adrodd.

6.3 Fel y gwyddoch, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd benodol ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r safonau sy'n ymwneud â sgiliau a recriwtio. Bydd yr ymgynghoriad a'r adolygiad dilynol yn gyfle i ddatblygu fframwaith clir a chyson ar gyfer mesur, categoreiddio ac adrodd ar sgiliau iaith staff, gan ddefnyddio dangosyddion safonol sy'n galluogi cymariaethau ar draws sectorau.

6.4 Dylid ehangu cwmpas yr adolygiad i ystyried y safonau gweithredu yn ehangach, yn ogystal â'r safonau hybu lle bo hynny'n berthnasol. Gyda deng mlynedd ers cyflwyno'r safonau cyntaf, mae'n amserol eu hailystyried, ac mae'r Ddeddf yn darparu cyfle euraidd i wneud hynny mewn ffordd strategol a chydlynol.

6.5 Fel y nodir gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, mae cyfle i'r safonau symud sefydliadau ar hyd continwwm defnydd iaith. Dylid manteisio ar hyn drwy gryfhau'r gofynion sy'n ymwneud â chynllunio iaith sefydliadol, yn enwedig mewn ardaloedd o ddwysedd uwch[4], a thrwy osod disgwyliadau clir ar gyfer rôl arweinyddiaeth mewn sbarduno newid diwylliannol.

6.6 Wrth gynnal yr adolygiad, dylid hefyd ystyried cryfhau'r gofynion o ran cynllunio'r gweithlu a chynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg. Gallai hyn gynnwys disgwyliadau mwy pendant ar sefydliadau i gynllunio sgiliau Cymraeg dros amser, gan gysylltu recriwtio, hyfforddiant a datblygiad staff, er mwyn gwreiddio'r iaith mewn prosesau corfforaethol.

6.7 Fel rhan o ehangu cwmpas adolygiad y safonau o dan adran 4 Deddf y Gymraeg ac Addysg, dylid cychwyn proses o ddatblygu opsiynau polisi a deddfwriaethol manwl, gan gynnwys ystyried i ba raddau y dylid:

- gosod gofynion penodol ar sefydliadau mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch – os a phan gânt eu dynodi maes o law – ar isafswm y ganran o staff â sgiliau Cymraeg, ynghyd â symud ar hyd y continwwm defnydd iaith tuag at weinyddiaeth fewnol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- gosod gofynion clir ar sefydliadau mewn ardaloedd o ddwysedd is a chanolig i wneud cynnydd bwriadus tuag at ddod yn sefydliadau gwirioneddol ddwyieithog, gan adlewyrchu'r continwwm defnydd iaith mewn modd cymesur
- cryfhau'r gofynion o ran adrodd a mesur cynnydd ar weithrediad y polisïau hyn.

6.8 Dylai'r adolygiad hefyd ystyried sut i ddiffinio a mesur nodweddion gweithle gwirioneddol ddwyieithog. Gallai hyn gynnwys disgwyliadau clir o ran defnydd o'r Gymraeg mewn cyfathrebu mewnol, cyfarfodydd, systemau a phrosesau sefydliadol, ynghyd â rôl arweinwyr wrth fodelu defnydd iaith.

7 Casgliadau

7.1 Mae potensial clir i gynyddu'r ymwneud mewn gweithleoedd fel gofodau i gynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Fel mae gweithgareddau'r Comisiynydd – a phartneriaid eraill – yn y maes dros y cyfnod diwethaf wedi dangos, mae awydd clir ar gyfer rhagor o ymwneud ac arweiniad. Mae'n hanfodol manteisio ar y momentwm hwn drwy adeiladu ymhellach ar weledigaeth Cymraeg 2050, gan gryfhau'r ffocws ar y gweithle fel blaenoriaeth strategol ac alinio ymdrechion ar draws partneriaid.

[4] Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg, t.77

7.2 Byddai gweithredu'r rhaglen waith arfaethedig fel yr amlinellir yn y nodyn cyngor hwn – sy'n cyfuno mesur defnydd i sefydlu gwaelodlin, cynllunio'r gweithlu a newid diwylliant sefydliadol yn cynnig llwybr ymarferol a systematig tuag at gynnydd cynaliadwy mewn defnydd o'r Gymraeg.

7.3 Yn y pen draw, mae'r nod yn glir: gweithleoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith waith naturiol, lle mae unigolion yn hyderus i'w defnyddio, a lle mae sefydliadau'n ei gwerthfawrogi fel sgil broffesiynol allweddol. Drwy weithredu'n fwriadol ac ar y cyd, o fewn fframwaith Cymraeg 2050, gellir sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o fywyd gwaith yng Nghymru.